| Cynllun Ffïoedd a Mynediad | |
|---|---|
| Enw'r Sefydliad | Swansea University Prifysgol Abertawe |

| Hyd y cynllun ffïoedd a mynediad | 1 Awst 2025 tan 31 Gorffennaf 2027 |
|---|---|

## Adran 1 - Lefelau ffïoedd

### Adran 1.1 – Lefelau ffïoedd neu bennu lefel ffïoedd ym mhob lleoliad
(Paragraffau arweiniad 85-92)

| Lefel y ffi | Lleoliad y cwrs |
|---|---|
| Ffi uchaf wedi'i rheoleiddio | **Prifysgol Abertawe**<br>• Gradd Baglor Anrhydedd<br>• Gradd Gyntaf Uwch (gradd 4 blynedd sy'n arwain at gymhwyster gradd Meistr)<br>• TAR<br>• Tystysgrif Addysg Uwch (cwrs 1 flwyddyn amser llawn)<br>• Gradd gyntaf mewn Iechyd/Milfeddygaeth neu gymhwysedd ar sail cymwysterau blaenorol i ddechrau cwrs ym mlynyddoedd 2 neu 3 |

| | |
|---|---|
| | • Diploma a chymhwysedd ar gyfer Iechyd/Milfeddygaeth<br>• Blwyddyn Sylfaen ar gyfer pynciau sy'n cael eu haddysgu mewn ystafell ddosbarth |
| Y ffi a nodwyd mewn cytundebau partner breiniol | **Coleg Cambria**<br>• Gradd Sylfaen<br>• Gradd Gyntaf |
| 20% o'r ffi uchaf wedi'i rheoleiddio | **Prifysgol Abertawe**<br>• Gradd Baglor Anrhydedd - blwyddyn mewn diwydiant<br>• Gradd Gyntaf Uwch - blwyddyn mewn diwydiant |
| 15% o'r ffi uchaf wedi'i rheoleiddio | **Prifysgol Abertawe**<br>• Anrhydedd Gradd Baglor - blwyddyn dramor<br>• Gradd Gyntaf Uwch - blwyddyn dramor |

Caiff y ffïoedd dysgu uchaf yng Nghymru eu pennu gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd y ffi uchaf yw £9,535 ar gyfer yr holl fyfyrwyr israddedig amser llawn yn y DU. Mae gan y Brifysgol yr hawl i gynyddu ffïoedd dysgu ar gyfer ail flwyddyn cwrs a'i flynyddoedd dilynol yn unol â'r hyn a ganiateir gan unrhyw newid ym mholisi Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn rhoi gwybod i'r holl ymgeiswyr a myfyrwyr presennol am lefelau ffïoedd ac unrhyw gynnydd ar gyfer blynyddoedd astudio dilynol cyn gynted ag y cawn gadarnhad gan Lywodraeth Cymru. Byddwn yn cyhoeddi diweddariadau ar ein gwefan hefyd.

## Adran 1.2 - Lefelau ffïoedd cyfanredol
(Paragraffau arweiniad 98-101)

**Cyfanswm cost y ffïoedd dysgu ar hyd y cwrs (ffïoedd cyfanredol)**
Gan ddefnyddio'r wybodaeth o'n tudalennau cwrs ar ein gwefan, gall myfyrwyr gyfrifo cyfanswm y ffi dysgu neu’r ffi dysgu gyfanredol y byddant yn ei thalu ar draws y radd o'u dewis.

Beth bynnag fo lefel y ffi, byddwn yn:

- Ysgrifennu at yr holl fyfyrwyr sy'n cyflwyno cais am fynediad o 2025-26 a 2026-27 i roi gwybod iddynt am y ffïoedd, y trefniadau ar gyfer talu ffïoedd a'r cymorth sydd ar gael iddynt.
- Byddwn yn darparu gwybodaeth am lefelau ffïoedd ar gyfer pob blwyddyn o'r rhaglen astudio (er mwyn cyfrifo'r ffi gyfanredol ar gyfer y rhaglen gyfan).
- Byddwn hefyd yn ysgrifennu at fyfyrwyr sy'n cyflwyno cais i Brifysgol Abertawe am fynediad yn 2025-26 a 2026-27 wedi'i ohirio o'r flwyddyn flaenorol i roi gwybod iddynt am y ffïoedd.
- Byddwn hefyd yn ysgrifennu at fyfyrwyr presennol y gallai newidiadau mewn ffïoedd effeithio arnynt os ydynt yn dewis symud i gwrs arall neu'n gorfod ailsefyll i roi'r wybodaeth briodol iddynt.
- **Gellir dod o hyd i wybodaeth am ffïoedd a chostau cysylltiedig yma.**

Yn ogystal â thaliadau Ffïoedd Dysgu a chostau byw, gall rhai rhaglenni (neu fodiwlau) ddenu **costau gorfodol neu ddewisol ychwanegol** pellach sy'n angenrheidiol i fyfyrwyr gymryd rhan lawn a chwblhau'r rhaglen o'u dewis.

Bydd angen i fyfyrwyr neilltuo arian ar gyfer y costau hyn ar wahân, gan nad ydynt wedi'u cynnwys yng nghyfanswm y ffioedd dysgu a godir. Gall y fath gostau gynnwys teithiau maes, costau teithio ar gyfer lleoliadau gwaith neu leoliadau astudio, costau offer neu labordy, a gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol/ Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n benodol i'r rhaglen. Bydd y Brifysgol a'i phartneriaid breiniol yn parhau i weithio i leihau nifer a graddfa costau ychwanegol ond **bydd manylion unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cyhoeddi ar dudalen we rhaglen unigol a byddant yn cael eu cynnwys yng ngwybodaeth y rhaglen a anfonir at yr holl ymgeiswyr wrth wneud cynnig iddynt.** Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan **yma**.

## Adran 2 – Partneriaethau â Myfyrwyr
(Paragraffau arweiniad 102-105)

Mae Swyddogion Undeb y Myfyrwyr yn rhoi mewnbwn ac yn llywio datblygiad y cynlluniau Ffïoedd a Mynediad. Cyflawnir hyn drwy adolygu fersiynau cychwynnol y cynllun a darparu mewnbynnau uniongyrchol yn seiliedig ar eu hymgysylltiad â myfyrwyr ac adborth ganddynt, a geir drwy wahanol lwyfannau fel y Fforymau Myfyrwyr ac arolygon. Mae Swyddogion Undeb y Myfyrwyr hefyd yn defnyddio cyfleoedd pellach i dynnu sylw at faterion a phryderon y mae angen eu blaenoriaethu yn y cynllun pan fyddant yn cwrdd ag Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol a'r Dirprwy Is-ganghellor Addysg. Mae'r Llywodraethwyr Myfyrwyr enwebedig, h.y. y Llywydd a'r Swyddog Addysg (2023-24) wedyn yn chwarae rhan wrth hysbysu a chymeradwyo'r cynllun pan gaiff ei gyflwyno gerbron Cyngor y Brifysgol i'w gymeradwyo.

**Llais y Myfyrwyr ac Ymgysylltu**

Mae gennym barch mawr tuag at lais y myfyrwyr, a thrwy ymdrechion cydweithredol gydag Undeb y Myfyrwyr, rydym yn darparu cyfleoedd drwy gydol y flwyddyn i fyfyrwyr rannu eu barn am yr hyn y mae'r Brifysgol yn ei wneud yn dda a sut y gallwn wella eu profiad.

Mae ein Strategaeth Ymgysylltu â Myfyrwyr yn canolbwyntio ar greu diwylliant cynhwysol o ymgysylltu â myfyrwyr a phartneriaeth gan sicrhau bod ein Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn adlewyrchu amrywiaeth ein poblogaeth o fyfyrwyr a'u bod yn cael eu cynrychioli fel partneriaid craidd ym mhob rhan o'n strwythurau. Mae'r holl fyfyrwyr, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig, yn cael eu hannog a'u cefnogi i ymgysylltu fel partneriaid drwy amrywiaeth eang o blatfformau sy'n galluogi dewis ac yn cefnogi hygyrchedd, megis Paneli Barn Myfyrwyr a digwyddiadau Cnoi Cil. Rydym hefyd yn ymgysylltu â'n myfyrwyr mewn sefydliadau partner drwy'r strategaeth hon. Caiff llais y myfyrwyr ac adborth gan fyfyrwyr eu cipio gan arolygon Llais y Dysgwr yn ein sefydliadau partner sy'n rhoi adborth i'r tiwtor cyswllt ar gyfer pob Cyfadran.

Yn ogystal ag arolygon blynyddol, mae ein platfform llais myfyrwyr Unitu yn sicrhau proses adborth dryloyw. Gall myfyrwyr bostio canmoliaeth, syniadau a cheisiadau ar y platfform ar-lein a rhoi sylwadau yn ddienw ar fyrddau Cyfadrannau a byrddau'r Brifysgol, gan alluogi staff i ymateb yn uniongyrchol a hwyluso trafodaeth ystyrlon. Mae'r platfform yn rhoi mewnwelediadau amser real i flaenoriaethau myfyrwyr, sy'n golygu nad oes angen aros am arolygon cyfnodol. Mae gwaith ar y gweill i adolygu'r byrddau ar y platfform a sicrhau ein bod yn darparu amgylchedd deniadol ac ymatebol ar gyfer adborth myfyrwyr.

Rydym yn awyddus i ymgysylltu â myfyrwyr wrth ddatblygu prosiectau a gwasanaethau newydd, gan integreiddio adborth i brosesau cynllunio. Mae adborth myfyrwyr yn ganolog wrth ddatblygu mentrau'r Brifysgol, gan gynnwys y Strategaeth Addysg newydd, ac wrth ddylunio gwasanaethau. Mae sesiynau 'Cnoi Cil' rheolaidd yn casglu adborth gan fyfyrwyr, gan alluogi'r Brifysgol i gasglu adborth ystyrlon ac amserol.

Cynhelir Fforymau Staff a Myfyrwyr gyda Chynrychiolwyr Myfyrwyr a Staff y Gyfadran i fynd i'r afael ag adborth myfyrwyr a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fyfyrwyr. Mae cofnodion yn cael eu casglu'n ganolog i sicrhau bod adborth yn cael ei roi ar waith a'n bod yn cael darlun o brofiad y myfyrwyr. Mae'r fforymau hyn, sy'n cael eu cyd-gadeirio gan staff Ymgysylltu a chynrychiolwyr ysgolion, yn cael eu cynnal o leiaf unwaith y tymor ym mhob ysgol.

Gall staff ymgysylltu ag adborth gan fyfyrwyr ar fodiwlau drwy'r Porth Ymgysylltu EvaMetrics sy'n ategu cwblhau'r arolygon yn y dosbarth. Mae'r porth yn offeryn syml i staff  roi myfyrdodau i fyfyrwyr ar sail eu hadborth, nodi mewnwelediadau y gellir gweithredu arnynt, a sefydlu deialog gynhyrchiol, a thrwy hynny gau'r ddolen adborth.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Materion Cymraeg yn cydlynu ac yn cadeirio Fforwm Myfyrwyr Cymraeg bob tymor, sy'n rhoi llwyfan i fyfyrwyr Cymraeg roi adborth a allai fod ganddynt.

Rydym wedi sefydlu dulliau i gyfathrebu â myfyrwyr a staff o ran sut mae'r adborth hwn wedi sbarduno newid cadarnhaol ar draws y Brifysgol, gan gau'r ddolen adborth. Mae ein menter 'Gyda'n gilydd rydym wedi creu newid' yn arddangos canlyniadau mewnbwn myfyrwyr ar lefel y rhaglen, y gyfadran a'r Brifysgol drwy arddangosiadau gweledol a negeseuon.

**Y System Cynrychiolwyr Academaidd**

Mae'r System Cynrychiolwyr Academaidd yn bartneriaeth rhwng Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol ac mae'n cynnwys dros 400 o gynrychiolwyr sy'n gweithredu ar lefel Ysgol a Phwnc. Mae'r cynrychiolwyr hyn yn cymryd rhan weithredol mewn Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu Ysgolion, Byrddau Astudiaethau, Fforymau Cynghori Myfyrwyr, a Fforymau Staff-Myfyrwyr Ysgolion. Mae eu mewnwelediadau, a gasglwyd gan gyd-fyfyrwyr, yn rhan sylweddol o'r agendâu yn y fforymau hyn, gan ysgogi trafodaethau ar fentrau gwella.

Maent hefyd yn gweithio ar ymgyrchoedd yr Undeb a'r Brifysgol ac yn casglu adborth gan eu cyfoedion drwy gydol y flwyddyn i ysgogi newid ystyrlon a gwelliannau yn eu cyrsiau.

Mae Cynrychiolwyr Ysgolion yn cwrdd yn fisol ym Mhwyllgor Gweithredol Addysg Undeb y Myfyrwyr sy'n cael ei wasanaethu gan Undeb y Myfyrwyr ac sy'n cael ei gadeirio gan y Swyddog Addysg. Yma maent yn rhannu adborth a diweddariadau o'u Hysgolion, sydd wedyn yn cael eu trosglwyddo drwy Swyddog Addysg Undeb y Myfyrwyr, Tîm Llais Myfyrwyr Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe a SPES i weithredu'n briodol.

Mae SPES ac Undeb y Myfyrwyr yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r system Cynrychiolwyr ar hyn o bryd, gan gasglu adborth gan fyfyrwyr, Cynrychiolwyr a staff. Nod yr adolygiad hwn yw mireinio rolau a chyfrifoldebau er mwyn cydweddu'n well ag anghenion myfyrwyr. Mae dros 500 o fyfyrwyr wedi cyfrannu at yr adolygiad. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys gwerthuso'r hyfforddiant a ddarparwyd, gan ganolbwyntio ar wella cyflogadwyedd cynrychiolwyr drwy gyfleoedd hyfforddi ystyrlon.

**Partneriaid Ymgysylltu â Myfyrwyr**

Mae gan bob Gyfadran Bartneriaid Ymgysylltu â Myfyrwyr, rhai academaidd a gweinyddol, sy'n meithrin perthnasoedd partneriaeth agos â myfyrwyr sy'n cynrychioli eu Hysgolion a phynciau. Maent yn darparu cymorth i fynd i'r afael â materion a chyd-greu mentrau, megis mentora cymheiriaid a chynlluniau cyfeillio, ar lefel y gyfadran.

Er mwyn meithrin cydweithio a rhannu arferion gorau, cynhelir Fforwm Partner Ymgysylltu â Myfyrwyr rheolaidd gan y Tîm Partneriaethau ac Ymgysylltu â Myfyrwyr ar y cyd ag Undeb y Myfyrwyr. Mae'r fforwm hwn yn blatfform ar gyfer cyfnewid syniadau a strategaethau i wella ymgysylltiad myfyrwyr ar draws y Sefydliad.

**Undeb y Myfyrwyr a'r Strwythurau Partneriaethau Myfyrwyr**

Mae Swyddogion Amser Llawn Undeb y Myfyrwyr, tîm Llais Myfyrwyr yr Undeb, Swyddogion Rhyddhad Rhan-amser yr Undeb a nifer o gynrychiolwyr myfyrwyr yn aelodau allweddol o'r Fforwm Cynghori Myfyrwyr. Y pwyllgor yw'r lle ar gyfer trafod a chymeradwyo strategaethau a phrosiectau sy'n ymwneud â phrofiad a phartneriaeth myfyrwyr. Yn nodedig, cafodd y pwyllgor ei ailstrwythuro ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24, gan arwain at gyfran uwch o gynrychiolaeth gan fyfyrwyr.

Mae'r Fforwm Cynghori Myfyrwyr yn adrodd yn uniongyrchol i Fforwm Addysg y Brifysgol ac yn gyfrifol am oruchwylio'r adolygiad blynyddol o'r Siarter Myfyrwyr, sy'n cyd-fynd ag argymhellion CCAUC a gwelliannau ac addasiadau ehangach i brofiad myfyrwyr.

Yn ogystal â'r strwythurau partneriaeth myfyrwyr uchod gyda'r gymuned myfyrwyr ehangach ac amrywiol, mae Swyddogion Amser Llawn Undeb y Myfyrwyr a'r Prif Swyddog Gweithredol yn cynnal cyfarfodydd misol gydag Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol i roi adborth a throsglwyddo materion y mae angen sylw arnynt ar unwaith. Mae Swyddogion Amser Llawn hefyd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd bob pythefnos gyda'r Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr), i gyfleu, dilyn a monitro cynnydd ar y materion pwysig sy'n gysylltiedig â phrofiad academaidd a myfyrwyr ehangach.

Mae Undeb y Myfyrwyr yn gweithredu strwythur democrataidd dan arweiniad myfyrwyr o arweinwyr a gwirfoddolwyr sy'n fyfyrwyr ac yn hwyluso gwahanol bwyllgorau'r Undeb megis y Pwyllgor Gwaith (Swyddogion Amser Llawn a Rhan-amser), y Pwyllgor Addysg Weithredol, y Pwyllgor Gweithredol Chwaraeon?, Pwyllgor Gweithredol Cymdeithasau?, y Pwyllgor Lles, y Fforwm Cynghori Myfyrwyr ar Gynhwysiant Hiliol, y Pwyllgor Gweithredol Cynaliadwyedd?. Mae'r pwyllgorau gweithredol yn cael eu harwain gan swyddogion etholedig a chynrychiolwyr etholedig o grwpiau myfyrwyr priodol, grwpiau demograffig a grwpiau rhyddhad.

Mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnal arolygon annibynnol e.e. Wythnos Siarad ac yn trefnu Fforymau Myfyrwyr tymhorol gan gynnwys grwpiau rhyddhau i gasglu adborth yn uniongyrchol. Yna, caiff yr adborth hwn ei drosglwyddo i bwyllgorau perthnasol drwy swyddogion etholedig, Cynrychiolwyr a staff yr Undeb i fynd i'r afael ag adborth myfyrwyr ar y cyd. Ar ben hynny, mae swyddogion Undeb y Myfyrwyr a Phrif Swyddog Gweithredol yr Undeb yn aelodau o fyrddau strategol a gweithredol amrywiol, pwyllgorau, grwpiau llywio a grwpiau gorchwyl a gorffen ar lefel y Brifysgol a lefel y gyfadran. Mae Uwch-dîm Rheoli Undeb y Myfyrwyr hefyd yn cyfrannu at sawl pwyllgor a grŵp gweithredol. Mae tîm Llais Myfyrwyr Undeb y Myfyrwyr yn cydweithio'n agos â Gwasanaeth Partneriaeth ac Ymgysylltu â Myfyrwyr y Brifysgol i gynnwys myfyrwyr yn barhaus a chymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

Gan ategu'r ymdrechion hyn, mae'r Brifysgol wedi sefydlu Cymuned Adolygu Myfyrwyr - casgliad o fyfyrwyr sy'n ymroddedig i wella prosesau sicrhau ansawdd academaidd a sicrhau ansawdd ar draws y sefydliad. Mae Myfyrwyr Adolygu wedi'u hyfforddi a'u mentora, ac yna cânt eu dynodi i ddigwyddiadau, adolygiadau neu weithgareddau ansawdd penodol lle byddant yn rhoi barn beirniadol a chraff y myfyrwyr.

## Adran 3 - Grwpiau wedi'u tangynrychioli
(Paragraffau arweiniad 106-116)

Ar gyfer 2025-26 a 2026-27, mae'r Brifysgol wedi nodi'r grwpiau canlynol sydd wedi'u tangynrychioli a fydd yn cael eu cefnogi'n benodol gan y cynllun hwn:

Grwpiau wedi'u tangynrychioli **a nodwyd gan CCAUC**:

- Myfyrwyr o bob oedran **o ddau g**wintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (MALlC40)
- Myfyrwyr o bob oedran **o gwintel** isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (MALlC20).
- Pobl o bob oedran o ardaloedd yn y DU lle ceir cyfranogiad isel mewn Addysg Uwch (POLAR4).
- Myfyrwyr o bob oedran a fyddai'n elwa o astudio'n rhan-amser ym myd Addysg Uwch
- Myfyrwyr o bob oedran sy'n astudio drwy **gyfrwng y Gymraeg**.

Yn ogystal, mae **Prifysgol Abertawe** wedi nodi'r grwpiau canlynol sydd wedi'u tangynrychioli:

- **Myfyrwyr sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal**
- Myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u rhieni
- Myfyrwyr sy'n ofalwyr (perthynas neu ffrind ac eithrio plant oni bai eu bod yn anabl neu fod ganddynt gyflwr meddygol hirdymor)
- Myfyrwyr aeddfed dros 21 oed wrth gyrraedd y brifysgol
- Myfyrwyr anabl
- Grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn y DU
- **Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid**

Y grwpiau targed ar gyfer **cyfraniad y Sefydliad at y Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach** yw:

- grwpiau blaenoriaeth yn y ddau gwintel isaf (40% o'r boblogaeth) o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn ne-orllewin Cymru:
  - oedolion dros 21 oed sydd heb gymwysterau lefel 4;
  - pobl ifanc ôl-16 oed mewn dysgu hyd at lefel 4, yn ogystal ag oedolion sydd heb gymwysterau lefel 4;
  - pobl anabl;
  - pobl o gefndiroedd lleiafrifol ethnig; a
  - dysgu cyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cefnogi dysgu Cymraeg fel ail iaith a diwylliannau Cymru.

- dysgwyr sydd wedi profi gofal a gofalwyr o bob oedran yn rhanbarth de-orllewin Cymru ni waeth am WIMD 40.

| | |
|---|---|
| **Adran 4 – Amcanion fel y maent yn ymwneud â chefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo Addysg Uwch**<br>(Paragraffau arweiniad 117-135) | |
| **Adran 4.1 - Cyfle Cyfartal** | |
| CC1 | **Denu:** Ysbrydoli a recriwtio mwy o fyfyrwyr o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli i astudio ym Mhrifysgol Abertawe. |
| CC2 | Sicrhau bod myfyrwyr o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn cael **gwybodaeth effeithiol** (gan gynnwys gwybodaeth am gymorth ariannol) cyn ac ar ôl iddynt benderfynu astudio yn y Brifysgol. |
| CC3 | **Dilyniant a Chadw:** Darparu cymorth academaidd, lles ac ariannol cynhwysol i fyfyrwyr o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli gan eu cefnogi i symud ymlaen drwy eu hastudiaethau a'u cwblhau. |
| CC4 | Canlyniadau: Cefnogi mwy o fyfyrwyr o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli i gyflawni canlyniadau cadarnhaol mewn Addysg Uwch gan arwain at gyflogaeth neu astudiaethau pellach. |
| **Adran 4.2 - Hyrwyddo addysg uwch** | |
| HAU1 | **Partneriaethau Strategol Rhanbarthol:** Darparu partneriaethau yng Nghymru sy'n cyflawni cenhadaeth AU y Sefydliad, yn ehangu cyfleoedd i fyfyrwyr ac yn hyrwyddo ein dyheadau Cenhadaeth Ddinesig. |

| | |
|---|---|
| HAU2 | **Profiad y Myfyrwyr:** Darparu gwasanaethau, cyfleusterau a gweithgareddau sy'n gwella profiad myfyrwyr ac yn meithrin ymdeimlad o berthyn, gan gynnwys darparu platfform i lais myfyrwyr, cyfleoedd cyd-greu a dathlu diwylliannau amrywiol. Yn ogystal, cyflawni gwelliannau i ansawdd yr addysgu drwy gefnogi ac arfogi staff â gwybodaeth berthnasol drwy wahanol gyfleoedd hyfforddi. |
| HAU3 | **Cyflogadwyedd:** Darparu gwasanaethau, cymorth a gweithgareddau i fyfyrwyr mewn partneriaeth â chyflogwyr sy'n cryfhau cyflogadwyedd graddedigion Cymru. |
| HAU4 | **Rhyngwladoli:** Darparu gwasanaethau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo Addysg Uwch Cymru yn rhyngwladol gan arwain at fwy o recriwtio myfyrwyr rhyngwladol a phartneriaethau rhyngwladol. |
| HAU5 | **Codi ymwybyddiaeth** o werth Addysg Uwch i ddarpar fyfyrwyr yn gyffredinol. |

## Awdurdodi cais y cynllun ffïoedd a mynediad i CCAUC (gofynnol er mwyn ei gyhoeddi)

Wrth awdurdodi ceisiadau am gynlluniau ffïoedd a mynediad, mae'r corff llywodraethu:

i. yn cadarnhau ei fod yn parhau i fod yn sefydliad sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru ac sy'n elusen;

ii. wedi gweld ac ystyried tystiolaeth briodol i ategu'r datganiadau sy'n cael eu gwneud yn y cais hwn;

iii. yn cadarnhau y bu ymgynghori priodol â'i fyfyrwyr, y rhai sy'n astudio yn y sefydliad ac mewn darparwyr eraill lle mae addysg yn cael ei darparu ar ei ran;

iv. yn cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn y cais hwn am y cynllun ffïoedd a mynediad yn gywir ac yn gyfredol, ar adeg ysgrifennu, ac yn seiliedig ar ddata y gellir eu dilysu;

v. yn cadarnhau:
   a. ei bod hi'n dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth ariannol, ansawdd a/neu wybodaeth/ddata arall sydd ganddo am sefydliad a reoleiddir ar hyn o bryd, ni waeth a ddarparwyd yr wybodaeth/data yn wreiddiol at ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015;

vi. ei fod yn deall bod CCAUC yn cadw'r hawl i ymweld â'r sefydliad er mwyn deall yn well gymhwysedd sy'n gysylltiedig â threfnu a rheoli materion ariannol, y data a gyflwynir ar gynlluniau ffïoedd a mynediad a/neu ansawdd yr addysg a ddarperir ar y sefydliad neu ar ei ran;

vii. yn deall bod yn rhaid iddo ddarparu gwybodaeth, cymorth a mynediad i'w gyfleusterau i CCAUC a/neu asiant CCAUC, yn ogystal â chyfleusterau cyrff eraill sy'n darparu addysg uwch ar ei ran;

viii. yn deall y gall CCAUC gynnal adolygiad, neu drefnu i asiant gynnal adolygiad, sy'n ymwneud ag ansawdd yr addysg a ddarperir gan y sefydliad neu ar ei ran, a rhaid i'w gorff llywodraethu ystyried unrhyw gyngor a roddir iddo gan CCAUC neu'r corff a benodwyd gan CCAUC at y diben hwn;

ix. yn cadarnhau bod yr holl addysg a ddarperir ganddo, neu ar ei ran, beth bynnag fo lefel neu leoliad y ddarpariaeth, wedi cael ei hystyried yn y cais hwn am y cynllun ffïoedd a mynediad;

x. yn cadarnhau bod risg isel y gallai'r sefydliad fethu ar sail ariannol dros y tymor canolig i'r tymor hir;

xi. yn cadarnhau bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio bob blwyddyn gan archwilydd cofrestredig ac nid yw'r archwilydd cofrestredig yr un cwmni a/neu'r unigolyn a baratôdd y cyfrifon;

xii. yn cadarnhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar gyfer addysg uwch;

xiii. yn deall bod yn rhaid glynu wrth unrhyw ymrwymiadau ariannol i fyfyrwyr a wnaed yn y cynllun ffïoedd a mynediad, fel y cymeradwyir gan CCAUC;

xiv. yn cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi'r un gyfran o incwm ffïoedd israddedig amser llawn i hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch a pheidio â lleihau buddsoddiad i hyrwyddo cyfle cyfartal sydd â'r bwriad o gefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch yn unig;

xv. yn cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi ei gyfraniad sefydliadol i'r Rhaglen Ymestyn yn Ehangach sy'n cyd-fynd â'i Strategaeth Ymestyn yn Ehangach a'i Chynllun Gweithredu y cytunwyd arno;

xvi. yn cadarnhau y bydd yn cynnal lefelau cymorth myfyrwyr;

xvii. yn cadarnhau y bydd y sefydliad yn sicrhau y gellir gwneud copi o'r cynllun ffïoedd a mynediad yn hygyrch i'w fyfyrwyr mewn unrhyw fformat;

xviii. yn cadarnhau y bydd y sefydliad yn cyfeirio ei fyfyrwyr yn glir at brosesau cwynion CCAUC;

xix. yn cymryd pob cam rhesymol i gefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n astudio ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig;

xx. yn ystyried y ffordd orau y gall buddsoddiad gefnogi myfyrwyr sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan bandemig Covid-19 lle nas nodwyd eisoes eu bod yn rhan o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol; ac

xxi. yn ystyried yn briodol unrhyw arweiniad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, yn enwedig mewn perthynas â diogelu dysgwyr, ymgysylltu â dysgwyr, cyfle cyfartal, a chefnogi a hyrwyddo lles ei fyfyrwyr a'i staff.

| **Cyflwyno cais Cynllun Ffïoedd a Mynediad i CCAUC**[1] | |
|---|---|
| Dyddiad cymeradwyo gan y Corff Llywodraethu: | 8 Gorffennaf 2024 |
| Llofnod awdurdodedig y Corff Llywodraethu: |  |
| Dyddiad: | 8 Gorffennaf 2024 |
| **Cyflwyniad terfynol y cynllun ffïoedd a mynediad unwaith y bydd CCAUC wedi cadarnhau nad oes materion pellach (pan fo hynny'n berthnasol)** | |
| Dyddiad cymeradwyo gan y Corff Llywodraethu: | |
| Llofnod awdurdodedig y Corff Llywodraethu: | |
| Dyddiad: | |

[1]Rhaid i gynlluniau ffïoedd a mynediad a gyhoeddir ar wefannau'r sefydliad gynnwys fersiynau a gymeradwyir gan CCAUC yn unig.